Mae eich asesiad PIP yng Nghanolfan Gynadledda Plas Dolerw, Y Drenewydd

Cyfeiriad

Canolfan Gynadledda Plas Dolerw, Dolguan West
Heol Milford,
Y Drenewydd, Powys,
SY16 2EH

Cliciwch am gyfarwyddiadau

Oriau agor

Dydd Llun i Ddydd Gwener
09:00 i 17:00

Map a gwybodaeth ychwanegol ar y dudalen nesaf

Pwysig: canllaw yn unig yw'r cyfarwyddiadau a ddarperir, gwiriwch eich llwybr cyn teithio

Yn y car

O Wrecsam/Y Trallwng A483 - dilynwch yr A483 trwy'r Drenewydd, gan fynd heibio i Tesco a Kwik Fit ar y chwith nes i chi gyrraedd set o oleuadau traffig. Trowch i'r dde (ger McDonald's) a dilynwch y ffordd nes i chi gyrraedd cylchfan. Ewch yn syth ymlaen tuag at Aberhafesb.

O Aberhonddu / Llandrindod A470/A483 - dilynwch yr A483 drwy'r Drenewydd i'r goleuadau traffig ar Heol Newydd. Mae eglwys Dewi Sant ar y clawdd i'r dde, bloc swyddfeydd Tŷ Dewi Sant ar y chwith ac Eglwys y Bedyddwyr o'ch blaen/ar y chwith. Trowch i'r chwith, dilynwch y ffordd heibio Oriel Davies Gallery ar y chwith ac Argos ar y dde. Dyma lle gallwch chi droi i'r chwith i barcio ym maes parcio'r Awdurdod Lleol.

Os ydych yn gyrru ymlaen i Blas Dolerw, dilynwch y ffordd dros yr Afon Hafren at y gylchfan. Trowch i'r chwith tuag at Aberhafesb.

O'r ddau gyfeiriad, mae'r dreif i Blas Dolerw tua 200 metr ar y chwith. Mae arwydd coch mawr 'Plas Dolerw' ac arwydd melyn 'Ysgol y Santes Fair' wrth y fynedfa i'r dreif.

Ar y bws

Gwasanaethir y ganolfan asesu gan lwybrau bysiau 2, 3, 5, 31, FD, X20 a X20A. Mae safle bws yn Carrs Lane, safle MS7 sydd 0.1 milltir o'r ganolfan. Gallwch hefyd fynd â bysiau 6, 6A, a 37 i'r Stryd Fawr, safle BS16 sydd 100 troedfedd o'r lleoliad).

Ar y trên

Yr orsaf drenau agosaf yw **Gorsaf y Drenewydd** sydd 1 filltir (20 munud) ar droed i'r safle.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch ein canolfan ymholiadau ar 0808 178 8115

Mae eich asesiad PIP yng Nghanolfan Gynadledda Plas Dolerw, Y Drenewydd

Data map ©2022 Google

Parcio

Mae lle parcio i bobl anabl yn union o flaen Plas Dolerw.

Mae lleoedd parcio eraill yn gyfyngedig ym Mhlas Dolerw.

Pan fyddwch chi'n cyrraedd

Cofiwch ddod â dau fath o ID gyda chi.

Byddwch yn mynd i mewn i'r adeilad trwy ddrysau dwbl y mae angen eu gwthio ar agor. Defnyddiwch y gloch os oes angen cymorth arnoch.

Nid oes derbynnydd, ond bydd y swyddog diogelwch yn rhoi gwybod i'r Aseswr eich bod wedi cyrraedd.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae mynedfa ramp ar gael i'r prif ddrysau. Mae'r ystafell asesu ar y llawr gwaelod ac mae toiled hygyrch ar gael.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch ein canolfan ymholiadau ar 0808 178 8115